

Cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a newidiadau i ddatganiadau o ddiben yn ystod COVID-19

Rydym am helpu darparwyr gofal iechyd annibynnol wrth iddynt geisio cefnogi'r GIG fel rhan o'r ymdrech barhaus i ymateb i COVID-19. Er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r broses gofrestru yn rhwystro'r ffyrdd gwahanol hyn o weithio, mae'r nodyn hwn yn ceisio egluro sut y gellir gwneud newidiadau i gofrestriadau wrth ymateb i waith cynllunio wrth gefn GIG Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnwys cofrestriadau newydd a newidiadau i wasanaethau sydd eisoes wedi'u cofrestru.

Mae cofrestriad COVID-19 yn golygu unrhyw 'gais' gan ddarparwr gofal iechyd annibynnol sy'n:

- Bwriadu darparu gwasanaethau sy'n cynnig gallu ac adnoddau gofal iechyd ychwanegol mewn unrhyw ardal; neu
- helpu i reoli COVID-19 neu drin pobl sydd wedi cael y salwch.

Yn achos newidiadau nad ydynt yn effeithio ar eich amodau cofrestru e.e. triniaethau/gwasanaethau ychwanegol, gellir rhoi gwybod am y rhain drwy gyflwyno [ffurflen hysbysu NE08](#) a chopi o'ch datganiad o ddiben diwygiedig. Yna, gallwch roi'r newidiadau hyn ar waith cyn gynted ag y byddwch wedi rhoi gwybod i ni. Efallai y bydd newidiadau eraill yn golygu y bydd angen i chi newid eich cofrestriad presennol, e.e. cynyddu nifer y gwelyau neu newid ystodau oedran. Yn achos y newidiadau hyn, bydd angen i chi gyflwyno cais i [amrywio amodau](#). Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â COVID-19. Mewn achosion brys, er enghraifft, er mwyn cynyddu gallu ac adnoddau presennol, gallwn asesu eich cais wrth i chi wneud y newidiadau.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddarparwyr

Rydym yn disgwyl y caiff y rhan fwyaf o newidiadau eu rheoli drwy ddiweddarau eich datganiad o ddiben ac uchod ceir enghreifftiau o achosion lle gallai fod angen i chi wneud cais i amrywio amodau. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn gynhwysfawr a bydd angen trafod llawer o geisiadau gyda'n tîm. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch a oes angen gwneud cais, cysylltwch â ni.

Os ydych yn bwriadu cofrestru gwasanaeth newydd, cysylltwch â ni cyn cyflwyno cais fel y gallwn roi gwybod i chi am yr holl ddogfennau sydd eu hangen arnom fel rhan o'ch cais.

Dylid anfon ceisiadau cofrestru i hiwregistration@gov.wales a dylid cynnwys 'COVID-19' yn nheiti yr e-bost fel y gallwn ei nodi a'i flaenoriaethu'n briodol. Os nad yw'r newidiadau rydych yn eu gwneud yn golygu bod angen newid eich amodau cofrestru, ewch i'n gwefan i lawrlwytho [ffurflen hysbysu NE08](#) ac e-bostiwch y ffurflen orffenedig ynghyd â'ch datganiad o ddiben diwygiedig i hiwregistration@gov.wales.

Mae ceisiadau cofrestru ar gyfer darparwyr newydd nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 yn parhau yn unol â'r drefn arferol. Byddwn yn penderfynu a fyddwn yn ymweld â'r safle ar ôl trafod â'r darparwr unigol a byddwn yn ceisio cyflawni'r holl wiriadau cyn cofrestru yn electronig neu drwy Skype. Rydym yn gweithio ar ragor o ganllawiau a byddwn yn

r
h
a
n
n
u